


Hawdd ei Ddeall



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Strategaeth Arloesi i Gymru

Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan Lywodraeth Cymru. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o 'Strategaeth Arloesi i Gymru'.

Medi 2022

Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma



Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai eich bod angen help i'w darllen. Gofynnwch i rhywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.

Efallai bod y **geiriau mewn glas trwm** yn anodd eu deall. Rydych chi'n gallu gweld beth mae'r holl eiriau mewn **glas** yn feddwl ar dudalen 33.

Daw'r lluniau yn y ddogfen hon o Photosymbols:
www.photosymbols.com/

Lle mae'r ddogfen yn dweud ni, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch gyda:



E-bost: strategaetharloesi@llyw.cymru



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan Hawdd ei Ddeall Cymru gan ddefnyddio Photosymbols. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl o'r fersiwn hawdd ei ddeall yma, [cliciwch yma](#).

Cynnwys

Cyflwyniad	5
Sut rydyn ni eisiau i Gymru edrych	7
Cymru ffyniannus	9
Cymru Iachach	21
Cymru WYDN	24
Yr iaith Gymraeg a diwylliant	27
Cymru fwy cyfartal	28
Cymunedau yn gweithio gyda'i gilydd	29
Cymru sydd yn Gyfrifol yn Fyd-eang	31
Geiriau Anodd	33

Cyflwyniad



Tua 10 mlynedd yn ôl fe wnaethon ni gynllun i Gymru am:

- edrych ar y cynnyrch a'r gwasanaethau y mae Cymru yn dda am eu gwneud
- a beth oedd angen rhagor o ymchwil.



Roedd am ddatblygu cynnyrch, gwasanaethau a syniadau yng Nghymru i helpu ein **economi** i dyfu.



Economi ydy faint o arian sydd gan wlad. Os oes gan wlad ragor o arian mae'n dda i bobl y wlad honno.

Mae llawer o bethau wedi newid yn y 10 mlynedd diwethaf. Felly rydyn ni wedi penderfynu ein bod angen cynllun newydd.

A thought bubble with a scalloped border containing the text "Beth wyt ti meddwl?". Below it are two smaller, faint thought bubbles of the same shape, one above the other, suggesting a chain of thought or reflection.

Beth wyt ti
meddwl?

Dyma fersiwn drafft o'r cynllun hwnnw.
Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych
chi'n feddwl amdano.

Mae yna ffurflen ymateb i'w llenwi.
Darllenwch y ddogfen yma ac yna ateb
y cwestiynau yn y ffurflen ymateb os
gwelwch yn dda.

Beth rydyn ni eisiau i Gymru

Rydyn ni eisiau i Gymru allu datblygu llawer o gynnyrch, gwasanaethau a syniadau newydd. Mae hyn yn cael ei alw yn **arloesi**.



Arloesi ydy datblygu syniadau newydd i gynnyrch a gwasanaethau. Mae'n gallu meddwl dyfeisio pethau newydd. Neu gwneud i bethau hŷn weithio yn well.

Rydyn ni eisiau i GymruU ddod yn fwy cryf, teg a gwyrdd.

Fe fydd hyn yn helpu i wella llesiant pobl Cymru.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Mae deddf yng Nghymru o'r enw **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)**.



Mae'r ddeddf yma wedi ei seilio ar 7 nod i wneud gyda llesiant.

Rydyn ni wedi defnyddio'r 7 nod yma i'n helpu ni i wneud y cynllun yma.

Ac fe fyddwn ni yn siarad am sut rydyn ni'n gallu defnyddio **arloesi** yng Ngyhymru i gyflawni'r 7 nod yn y ddogfen yma.



Rydyn ni hefyd eisiau cyflawni'r pethau yma:

- Economi gryfach.
- Gofal iechyd da rydyn ni'n gallu ei fforddio am amser hir.
- Gwell gwasanaethau i bobl mewn risg mwyaf o niwed.
- Gwell safonau addysg.
- Delio gyda'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth rydyn ni'n ei wneud.



Mae hyn yn golygu meddwl am ein planed a gofalu amdani.

Cymru ffyniannus

Dyma'r nod llesiant cyntaf.

Ffyniannus ydy gwneud yn dda. Mae'n meddwl cael rhagor o arian a bod yn llwyddiannus.



Rydyn ni eisiau i Gymru fod yn lle mwy **arloesol**.

Rydyn ni eisiau i Gymru wneud rhagor o ynnyrch a gwasanaethau.



Rydyn ni eisiau gwneud hyn drwy feddwl am yr amgylchedd a'r blaned.

Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod plant yn cael addysg da ac yn dysgu sgiliau.



Rydyn ni eisiau cael llawer o gyfleoedd i gael swyddi da yng Nghymru.



I wneud hyn rydyn ni angen gwneud yn siŵr bod yna gyfleoedd da i blant i ddysgu.

Rhaid i ddysgwyr gael pob cyfle i ddatblygu a dysgu'r sgiliau i fod yn **arloesol**.

Rhai o'r pynciau sydd yn bwysig i **arloesi** ydy Gwyddoniaeth, Technoleg a Mathemateg.

Felly, mae digon o gyfleoedd i ddysgu sgiliau yn y meysydd yma.



Yn y gorffennol, mae Cymru wedi cael arian o Ewrop. Ers inni adael yr Undeb Ewropeaidd (Brexit) mae angen inni chwilio am gyllid arall.

Mae'n gallu bod yn anodd cael cyllid yn y DU. Oherwydd mae llawer o bobl yn ceisio cael neu ennill y cyllid.



Felly rhaid inni feddwl yn ofalus am sut rydyn ni'n ceisio cael cyllid.

Mae Cymru yn mynd i gael corff addysg newydd o'r enw y **Comisiwn ar gyfer Addysg Trydyddol ac Ymchwil**.

16 oed a hŷn

Mae hyn ar gyfer addysg pobl dros 16 oed.

Fe fydd hyn yn helpu i sicrhau bod addysg a hyfforddiant yn cadw i fyny gyda'r sgiliau mae cyflogwyr yn chwilio amdany'n nhw.

Rydyn ni'n credu y bydd hyn yn dda i bobl Cymru oherwydd:



Dysgu Tecach

- Fe fydd yn rhoi rhagor o gyfleoedd.
- Fe fydd yn helpu i wneud dysgu yn fwy teg.
- Fe fydd gan Gymru ragor o swyddi.
- Fe fydd gan bobl ragor o arian.



Cynnydd swyddi

Fe fydd hefyd yn meddwl bod Cymru yn gallu gwneud rhagor o **ymchwil** i gynnyrch a thechnoleg newydd.



Ymchwil ydy edrych i mewn i rhywbeth neu brofi rhywbeth i'w ddeall yn fwy.

Pan rydyn ni yn treulio amser ac arian yn **arloesi**, rydyn ni yn creu swyddi newydd. Felly mae **arloesi** yn dda i Gymru.

Ond weithiau mae swyddi yn gallu cael eu colli. Er enghraifft pan mae technoleg newydd yn dod, mae'n gallu meddwl nad oes angen hen swyddi.

I reoli hyn mae angen inni wneud yn siŵr bod gan bobl y sgiliau a'r addysg cywir ar gyfer swyddi newydd.



Mae hefyd yn bwysig cofio bod angen inni feddwl am beth sydd yn digwydd yng ngweddill y DU.

Ac mae angen inni weithio gyda'r DU yn gyfan i gyflawni'r mwyaf.

Dydy Cymru ddim wedi gwneud mor dda â rhai gwledydd eraill i gael arian ar gyfer **arloesi**.

Fe fydd **Banc Datblygu Cymru** hefyd yn benthyca arian i fusnesau newydd i'w helpu nhw i arloesi .



Mae angen inni edrych ar beth sydd yn digwydd mewn gwledydd eraill a gweld sut maen nhw yn **arloesi**.

Mae angen inni wella hyn. I wneud hynny fe fydd angen i gyrff yng Nghymru weithio mwy gyda'i gilydd.

Mae angen inni ddarganfod y cyfleoedd gorau i Gymru ddatblygu a thyfu.

I wneud hyn mae angen inni weithio gyda:



- Diwydiannau

- Busnesau



- Addysg


- Awdurdou lleol



- Elusennau

- Ysbytai

Delio gyda'r argyfwng hinsawdd



Rydyn ni'n gwybod bod ein planed yn mynd yn fwy poeth. A bod angen inni wneud llawer o waith i stopio hyn rhag mynd yn waeth.

I wneud hyn mae angen i wledydd o amgylch y byd leihau faint o **garbon** maen nhw yn ei ddefnyddio.



Carbon ydy sylwedd sydd yn cael eu ollwng pan rydyn ni yn defnyddio pethau fel gwresogi, gyrru ein ceir ac yn hedfan awyrennau.

Mae busnesau yn aml yn gollwng llawer o **garbon**.

Cymru Sero Net



Mae gan Gymru gynllun i leihau faint o garbon mae yn ei wneud, Mae hyn yn cael ei alw yn **Cymru Sero Net**.

Mae angen i bawb feddwl am newid hinsawdd a charbon.

Mae angen inni symud drosodd i ynni llawer mwy glân a gwyrdd. Mae hwn yn ynni sydd yn well i'n planed.



Ac mae angen inni ddatblygu technoleg a diwydiannau sydd yn gwneud ynni glannach.



Fe fydd defnyddio trydan ar gyfer gwres a thrafnidiaeth yn un o'r prif bethau sydd angen eu gwneud.

Mae angen inni feddwl a chynllunio yn ofalus am sut rydyn ni'n gwneud hyn.

Rhaid iddo fod yn deg i bawb yng Nghymru.



Mae angen inni leihau cost ynni.

Mae angen inni ddatblygu ffynonellau newydd o ynni glannach.



Mae angen inni weithio gyda'n gilydd i helpu i ddarganfod yr atebion gorau i'r problemau yma.



Mae angen inni barhau i wneud newidiadau i'n system drafnidiaeth. A gwneud yn siŵr ei fod yn lannach.

Dyma rai o'r syniadau sydd gennym ni ar gyfer gwneud trafndiaeth yn lannach yn y blynyddoedd nesaf:



- Annog pobl i ddefnyddio trafndiaeth cyhoeddus yn fwy.

- Pweru trennau gyda batris.



- Treialu gwasanaethau tacsï rhydd o garbon.

- Defnyddio beiciau trydan.



- Gwella ffyrdd.

Dyma rai syniadau sydd gennym ni i wneud gwresogi yn lannach yn y blynyddoedd nesaf:

- Ei gwneud yn rhatach i adeiladu adeiladau sydd yn defnyddio llai o garbon.



- Cael mathau newydd o wresogi fel pypiau gwres sydd yn well i'r blaned.



- Rhoi cefnogaeth i bobl i wneud eu gwresogi yn well i'r blaned.

- Rhoi arian i gyrff tai i wneud eu tai yn fwy gwyrdd a glân.

- Defnyddio technoleg newydd i helpu i leihau carbon.



Mae angen inni ddarganfod ffyrdd newydd o aildefnyddio'r ethau sydd gennym ni. Ac osgoi gwastraff.

A phan rydyn ni yn gwneud cynnyrch newydd mae angen iddyn nhw fod yn **gynaliadwy**.

Gynaliadwy ydy rhywbeth fydd yn para am amser hir. A rhywbeth sydd yn well i'r blaned.

Strategaeth Digidol i Gymru

Mae angen inni hefyd feddwl yn wahanol am beth rydyn ni yn ei ddefnyddio. Mae angen inni feddwl am fod yn fwy **cynaliadwy**.

Mae gennym ni gynllun o'r enw **Strategaeth Digidol i Gymru**.

Mae hyn am sut rydyn ni yn defnyddio **technoleg digidol** i helpu i wella ein bywydau.



Technoleg Digidol ydy defnyddio cyfrifiaduron, y rhynggrwyd a meddalwedd i'n helpu ni i wneud pethau.

Rydyn ni'n gallu defnyddio **technoleg digidol** i helpu i wella pethau fel:

- Gwasanaethau cyhoeddus
- Iechyd a llesiant
- Yr amgylchedd

Mae Cymru yn gwario llawer o arian
ar **gaffael**.

Mae **caffael** yn meddwl y cynnyrch
a'r gwasanaethau mae gwasanaethau
cyhoeddus fel GIG yn eu prynu gan
gyrff **eraill**.



Mae angen inni feddwl yn ofalus
am sut rydyn ni'n gwario'r arian yma.


Cymru Iachach

Rydyn ni eisiau gwella ein system iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.



I wneud hyn mae angen inni weithio gyda'n gilydd i ddarganfod y ffyrdd gorau o weithio.

Ac mae angen inni feddwl am **arloesi** mewn iechyd a gofal cymdeithasol i helpu i wella a datblygu gwasanaethau.



Coronafeirws
COVID-19

Mae'r pandemig COVID-19 wedi cael effaith mawr ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae wedi rhoi llawer o bwysau arno.

Ond mae hefyd wedi ein helpu ni i feddwl yn wahanol am sut rydyn ni yn gwneud pethau.

Mae **arloesi** yn gallu cael ei ddefnyddio i helpu iechyd a gwaith gofal cymdeithasol i weithio yn y ffyrdd gorau.

Dyma rai o'r prif bethau rydyn ni'n meddwl mae angen inni eu gwneud mewn iechyd a gofal cymdeithasol:



- Mae angen i gyrff iechyd a gofal cymdeithasol weithio gyda'i gilydd. A gyda chyrff eraill. Mae hyn er mwyn datblygu gwasanaethau **arloesi**.
- Rhaid rhoi meddwl a rheolaeth i **arloesi**.
- Rhaid inni ddarganfod gwell ffyrdd o wneud cais am gyllid i wneud gydag **arloesi**.

Rydyn ni'n credu bod rhaid defnyddio **arloesi** i ddatblygu meysydd iechyd fel:



- Delio gyda phroblemau iechyd yn gynnar.
- Diagnosio problemau iechyd.
- Lleihau rhestrau aros.
- Cefnogi iechyd meddwl.





Mae llawer o brosiectau yng Nghymru i wneud gyda datblygu gwasanaethau mewn iechyd a gofal cymdeithasol.

Fe fyddwn ni yn edrych am ragor o gyfleoedd i wneud mwy o'r gwaith **arloesol** yma. Ac am ffyrdd o'u cyllido nhw.

Rydyn ni hefyd yn credu bod **technoleg digidol** yn bwysig i wella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Strategaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Digidol

Mae cynllun newydd o'r enw **Strategaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Digidol** i Gymru yn cael ei roi at ei gilydd.

Mae **ymchwil** i iechyd a gofal cymdeithasol yn faes arall pwysig i Gymru.



Rydyn ni eisiau parhau i ddatblygu a chyllido'r maes yma. Oherwydd mae **ymchwil** yn gallu ein helpu ni i ddysgu rhagor am iechyd. A'i wella.

Cymru Wydn

Mae **gwydn** yn meddwl bod rhywbeth yn gryf. Ac yn gallu gwella o amseroedd anodd yn fwy cyflym.

Mae hyn yn gallu meddwl pethau fel cael amgylchedd ac **economi gwydn**.



Drwy ddefnyddio **arloesi** i helpu i leihau carbon rydyn ni'n gallu helpu i amddiffyn ein planed. A lleihau newid hinsawdd.

Dyma rai o'r nodau eraill i wneud gyda defnyddio **arloesi** i wneud Cymru yn fwy **gwydn**:

- Cefnogi busnesau i ddarganfod ffyrdd o aildefnyddio gwastraff.
- Defnyddio cynnyrch carbon isel pan rydyn ni yn adeiladu pethau fel cartrefi.





- Darganfod ffyrdd o ailgylchu pethau dydyn ni ddim yn gallu ei wneud ar hyn o bryd.
- Cefnogi busnesau i wneud pethau sydd yn well i'r amgylchedd.



Rydyn ni hefyd yn gwybod bod pobl wedi gwneud niwed i'n planed sydd ddim yn gallu cael ei newid.

Mae angen inni ddarganfod ffyrdd o reoli'r niwed sydd wedi ei wneud yn barod.



Er enghraifft mae tymheredd y blaned yn mynd i godi.

Fe fydd yna fwy o stormydd a llifogydd.



Mae yna berygl i fywyd gwylt a natur.

Mae yna berygl i faint o fwyd fydd gennym ni yn y dyfodol.



Rhaid inni ddarganfod ffyrdd **arloesol** i ddelio gyda'r problemau yma.

Er enghraifft, rydyn nin galu cefnogi ffermydd i ollwng llai o garbon.

Rydyn ni'ngallu eu helpu i ddefnyddio gwell offer. A llai o gemegolion.



Rydyn ni'n gallu cyllido **ymchwil** i ddarganfod ffyrdd gwell o ffermio.

Mae gennym ni gynlluniau hefyd i wella'r dwydiant bwyd a diod yng Nghymru. Mae hyn i'w helpu i fod yn fwy **cynaliadwy**.



A gwneud iddo dyfu fel bod rhagor o bobl y tu allan i Gymru yn prynu ein cynnyrch.

Yr iaith Gymraeg a diwylliant



Rydyn ni eisiau cael 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn y flwyddyn 2050.

Mae **technoleg digidol** yn 1 ffordd o helpu pobl i ddysgu Cymraeg

Rydyn ni eisiau cael pecyn cymorth am ddim i helpu busnesau i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu cynnyrch a'u gwasanaethau.



Rydyn ni eisiau i bobl allu defnyddio **technoleg digidol** yn Gymraeg neu yn Saesneg yn hawdd.

Fe ddylai hyn helpu i gynyddu'r nifer o werthiant sydd gan gynnyrch.

Cymru fwy teg

Rydyn ni eisiau cefnogi **arloesi** yn gyfartal a theg ar draws Cymru.



Mae hyn yn meddwl y dylai fod yna fynediad teg i bethau fel cyllid ar draws Cymru gyfan.

Mae'n bwysig gwybod am y mathau gwahanol o bobl sydd yn byw yng Nghymru. A'u gwahanol gefndiroedd.



Fe ddylai pobl mewn **ymchwil** ac **arloesi** ddod o wahanol gefndiroedd.

Mae'n bwysig hefyd bod pobl a chyrff yn gweithio yn dda gyda'i gilydd.

Rydyn ni eisiau defnyddio **arloesi** i wneud yn siŵr bod pobl Cymru i gyd yn cael eu trin yn deg.

Rydyn ni eisiau i bawb gael y cyfle i gymryd rhan mewn **arloesi**. Mae hyn yn meddwl mwynhau manteision **arloesi**.

Cymunedau yn gweithio gyda'i gilydd



Rydyn ni eisiau i gymunedau ar draws Cymru deimlo yn ddiogel ac wedi'u cysylltu yn dda.

Mae **technoleg digidol** yn gallu cael ei ddefnyddio i helpu i gysylltu cymunedau.



Ond dydy llawer o bobl yng Nghymru ddim yn gwybod sut i ddefnyddio **technoleg digidol**.



Er enghraifft oedolion hŷn. Neu rhai pobl anabl.

Mae angen inni newid hyn fel bod rhagor o bobl yn gallu defnyddio **technoleg digidol**.



Mae llawer o resymau pam bod **technoleg digidol** yn dda i bobl. Er enghraifft:

- Mae'n gallu arbed amser ac arian.



- Mae'n gallu helpu i stopio pobl rhag bod yn unig.
- Mae'n gallu helpu pobl i reoli rhai problemau iechyd.

Cymru sydd yn gyfrifol yn fyd-eang



Mae bod yn gyfrifol yn fyd-eang yn meddwl pan rydyn ni yn gwneud cynlluniau ein bod yn meddwl am yr effeithiau maen nhw'n gallu ei gael ar y blaned gyfan.

Rydyn ni eisiau i Gymru fod yn lle croesawgar a theg.

Rydyn ni eisiau gwneud dewisiadau a phenderfyniadau sydd ddim yn meddwl am Gymru yn unig. Ond yn meddwl am wledydd eraill hefyd.



Mae lleihau carbon yn enghraifft mawr o hyn.

Mae angen inni roi cefnogaeth maen nhw ei angen i fusnesau yng Nghymru i leihau eu carbon.

Strategaeth
Rhyngwladol

Rydyn ni hefyd wedi gwneud cynllun newydd yn 2021 o'r enw **Strategaeth Rhyngwladol**.

Mae hyn am wneud Cymru yn fwy adnabyddus drwy'r byd.

Mae am dyfu ein **economi** drwy wneud busnes gyda gwledydd eraill.



A gwneud yn siŵr bod gwledydd eraill yn ein gweld yn wlad sydd yn **gyfrifol** yn fyd-eang.

Rydyn ni'n gweithio gyda gwledydd eraill i wneud **arloesi** yng Nghymru yn well ac yn gryfach.



Ac rydyn ni'n gallu annog busensau o wledydd eraill i wario arian yng Nghymru.

Mae Cymru hefyd yn rhan o syniad o'r enw **Arbenigo Clyfar**. Mae hyn am ddangos beth mae Cymru yn ei wneud yn dda a'n helpu ni i ddod yn well.

Arbenigo
Clyfar

Mae'r syniad yma yn gallu helpu Cymru i ddarganfod y cyfleoedd gorau i wneud cynnyrch sydd eu hangen.

Geiriau anodd

Cystadleuol

Mae cystadleuol yn meddwl llawer o bobl yn ceisio cael neu ennill rhywbeth.

Technoleg digidol

Mae technoleg digidol yn meddwl defnyddio cyfrifiaduron, y rhynggrwyd a meddalwedd i'n helpu ni i wneud pethau.

Economi

Economi ydy faint o arian sydd gan wlad. Os oes gan wlad ragor o arian mae'n dda i bobl y wlad honno.

Arloesi

Arloesi ydy datblygu syniadau newydd yn gynnyrch a gwasanaethau. Mae'n gallu meddwl dyfeisio pethau newydd neu wneud i bethau hŷn weithio yn well.

Caffael

Caffael ydy'r cynnyrch a'r gwasanaethau mae gwasanaethau cyhoeddus fel GIG yn eu prynu gan gyrff eraill.

Ffyniannus

Ffyniannus ydy gwneud yn dda. Mae'n meddwl cael rhagor o arian a bod yn llwyddiannus.

Ymchwil

Mae ymchwil yn meddwl edrych i mewn i rhywbeth neu brofi rhywbeth i'w ddeall yn fwy.

Gwydn

Mae gwydn yn meddwl bod rhywbeth yn gryf. Ac yn gallu gwella o amseroedd anodd yn gyflym.

Cynaliadwy

Mae cynaliadwy yn meddwl y bydd rhywbeth yn para am amser hir. A rhywbeth sydd yn well i'r blaned.